

Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad ar fylchau a blaenoriaethau ymchwil

Anfonwyd yr arolwg ymgynghori at grŵp rhanddeiliaid eang gan gynnwys aelodau o Grŵp Cynghori ar Strategaeth Peillwyr Defra, Tasglu Cymru - Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr, Scottish Natural Heritage a sefydliadau sy'n ymwneud â chadwraeth pryfed peillio.

Derbyniwyd cyfanswm o 22 o ymatebion, ac roedd nifer o unigolion yn ateb ar ran y sefydliadau y maent yn gweithio iddynt. Mae'r cwestiynau penodol a ofynnwyd, yr ymatebion a gafwyd gan gynnwys crynodebau a'r sylwadau ychwanegol i'w gweld isod.

C1. Pa grwpiau o beillwyr a ddylai gaeleu blaenoriaethu wrth fonitro?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r tri uchaf gyda'r mwyaf pwysig yn cael sgôr o 1. At ddibenion dadansoddi, rhoddwyd sgôr o 3 i'r mwyaf pwysig (gradd 1) a sgôr o 2 i'r ail bwysicaf (gradd 2) ac yn y blaen, a rhoddwyd sgôr o sero i bob colofn nad oedd wedi derbyn sgôr. Os oedd ymatebion wedi rhoi graddau ychwanegol yn uwch na 3, rhoddwyd sgôr o 0.5

	Gwenyn gwyllt	Gwenyn mêl	Cacwn	Pryfed hofran	Glôynnod Byw	Yr holl dacsonau uchod	Arall (nodwch os gwelwch yn dda)
	0	0	0	0	0	3	
	3	1	0	2	0	0	
	0	3	0	0	1	0	
	3	0.5	1	2	2	3	
	2	3	0	0	1	0	
	3	0.5	0.5	2	1	0	
	3	0	0	2	1	0	
	3	0	0	1	2	0	
	2	3	0	0	1	0	
	2	0	0	3	0	0	Pob Lepidoptera gan gynnwys gwyfynod
	3	0	0	0	2	1	
	3	1	0	2	0	0	
	3	0	0	2	0	1	
	3	0	0	2	0	0	Pryfed eraill
	2	0	0	0	0	3	Grwpiau a dangofnodir / Diptera sy'n ymweld â blodau
	3	2	0	1	0	0	
	3	0	0	1	2	0	
	3	1	0	2	0	0	
	3	2	0	1	0	0	
	3	0	0	2	1	0	
	3	0	0	0	2	0	Diptera ansyrffid

	3	0	0	2	0	1	
CYMEDR	2.50	0.75	0.06	1.23	0.73	0.55	
SAFLE	1	4	6	2	3	5	

Trosolwg: Roedd ein rhanddeiliaid wedi graddio'r tacsonau blaenoriaeth i'w monitro (yn nhrefn eu pwysigrwydd) fel hyn: gwenyn gwyllt, pryfed hofran, gloynnod byw, gwenyn mêl, yr holl dacsonau, cacwn

C2. Beth ddylai fod yn ganolbwynt i gynllun monitro?

Gofynnwyd i ymatebwyr raddio'r pump uchaf trwy ychwanegu 1, 2, 3, 4 a 5 i'r tabl isod, gyda'r mwyaf pwysig yn derbyn sgôr o 1. At ddibenion dadansoddi, rhoddwyd sgôr o 5 i'r mwyaf pwysig (gradd 1) a sgôr o 2 i'r ail bwysicaf (gradd 4) ac yn y blaen, a rhoddwyd sgôr o sero i bob colfnad oedd wedi derbyn sgôr. Os oedd ymatebion wedi rhoi graddau ychwanegol yn uwch na 5, rhoddwyd sgôr o 0.5

	Rhywogaethau cyffredin	Rhywogaethau prin	Rhywogaethau endemig	Rhywogaethau goresgynol	Peillwyr cnydau	Peillwyr planhigion gwyllt	Peillwyr a reolir	Straenachoswyr/bygythiadau	Effeithiolrwydd ymyriadau
	3	2	0	0	0	1	0	5	5
	5	0	0	0	4	3	2	0	0
	3	0	2	0	4	1	5	0	0
	4	5	3	0.5	0	2	0	1	0.5
	4	0	3	0	0	1	0	2	5
	3	0.5	2	0.5	0.5	1	0.5	5	4
	3	0	0	0	0	4	0	5	5
	5	0	4	0	0	3	0	2	1
	5	0	0	0	0	4	2	3	1
	2	1	0	0	0	0	0	4	5
	4	5	0	0	2	3	0	0	1
	4	3	0	0	1	2	0	5	0
	4	5	0	0	2	3	0	0	1
	5	4	0	0	0	3	2	0	1
	4	1	0	0	0	0	0	5	3
	0	0	0	0	3	2	1	5	4
	5	3	0	0	0	4	0	1	2
	0	1	0	0	5	4	0	2	3
	4	0	0	0	5	1	2	0	3

	3	0	0	0	0	4	0	0	5
	4	0	0	0	0	5	2	3	0
	0	0	0	0	5	5	0	4	4
CYMEDR	3.36	1.39	0.64	0.05	1.43	2.55	0.75	2.36	2.43
SAFLE	1	5	8	9	6	2	7	4	3

Roedd y sylwadau yn yr adran 'arall' yn cynnwys ceisiadau i ystyried y canlynol: cyfraniad adnoddau nad ydynt yn flodau, peillwyr mewn gerddi, rhywogaethau â swyddogaeth bwysig (e.e. cacwn tafod hir v tafod byr).

Trosolwg: Roedd ein rhanddeiliaid wedi graddio'r ffocws blaenoriaeth ar gyfer monitro fel hyn: rhywogaethau cyffredin, peillwyr planhigion gwyllt, effeithiolrwydd ymyriadau, straenachoswyr/bygythiadau, rhywogaethau prin, peillwyr cnydau, peillwyr sydd wedi'u rheoli, rhywogaethau endemig, rhywogaethau goresgynnol.

C3. Dywedwch wrthym yn eich geiriau eich hun pa fylchau neu anghenion eraill y mae angen mynd i'r afael â nhw drwy waith ymchwil ychwanegol yn ymwneud â monitro peillwyr.

Yr hyn sy'n dilyn yw'r ymatebion testun rhydd a dderbyniwyd gan 16 o unigolion/grwpiau:

1. Mae llawer o adnoddau'n cael eu defnyddio i greu caeau ar gyfer cnydau'n unig trwy ddefnyddio chwynladdwyr. **Beth yw gwerth 'chwyn' â** ar gyfer peillwyr gwyllt, ac os yw cnydau'n cael eu heintio â phlanhigion â beth yw'r effaith ar gynhyrchiant? Os yw planhigion â yn cynnal poblogaethau sylweddol o beillwyr gwyllt, a ddylai cynlluniau amaeth-amgylchedd yn y dyfodol ddigolledu ffermwyr am golli cynhyrchiant drwy roi'r gorau i ddefnyddio chwynladdwyr?
2. Mae'r prif fwch i'w weld mewn gweithgarwch dilynol sy'n ystyried **effaith HLS a CS** (cyn ac ar ôl a pharau cyfatebol o ffermydd), o'i gymharu â newidiadau mewn systemau fferm gyfan i ffermio organig. Mae yna fwch enfawr o ran asesu **effaith ffwngleiddiaid** (y plaladdwr sy'n tyfu gyflymaf) yn uniongyrchol ar beillwyr ac yn anuniongyrchol drwy wella effaith plaladdwyr fel neonicotinoidau.
3. **Planhigion bwyd larfal** sydd ar gael mewn lleiniau peillwyr ar dir fferm, **swbstradau nythu** sydd ar gael ar gyfer gwenyn gwyllt sy'n nythu ar y ddaear, pwysigrwydd **gerddi preifat a chyhoeddus** i beillwyr.
4. Yr hyn sydd ei angen yw asesiad o **ofynion cynefinoedd peillwyr brodorol** er mwyn gwella ein gwybodaeth am y rhyngweithio rhwng planhigion a pheillwyr, gan gynnwys y berthynas rhwng peillwyr gwyllt a maint, ansawdd a mathau o gynefinoedd, a'u cysylltiad ag ardaloedd cynefin eraill. Dyma un o brif ddiffygion y gwaith presennol i wrthdroi dirywiad peillwyr, yn benodol ar gyfer cynefinoedd lled-naturiol sy'n llawn blodau, ac nid dim ond cnydau peillwyr sydd wedi'u hau mewn sefyllfaedd â. Mae'n rhaid gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas achosol rhwng

darparu cynefinoedd a phoblogaethau peillwyr brodorol, fel bod modd ei gwerthfawrogi yn nhermau'r cyfalaf naturiol y mae cynefinoedd lled-naturiol blodeuog yn ei ddarparu.

5. **Effeithiau chwistrellu plaladdwyr amaethyddol a gardd**, gan gynnwys neonicotinoidau. Beth yw'r cynlluniau cymhorthdal amaethyddol mwyaf effeithiol i atal colli cynefinoedd a hyrwyddo'r gwaith o adfer cynefinoedd, gyda'r nod o weithredu'n annibynnol ar ôl Brexit.
6. Asesiad o **ofynion cynefinoedd peillwyr brodorol** – dyma un o brif ddiffygion y gwaith presennol i wrthdroi dirywiad peillwyr, yn enwedig cynefinoedd lled-naturiol sy'n llawn blodau. Mae angen gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas achosol rhwng darparu cynefinoedd a phoblogaethau peillwyr brodorol (yn nhermau'r cyfalaf naturiol y mae cynefinoedd lled-naturiol llawn blodau yn ei ddarparu), a'i unioni. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i unrhyw ofynion am sicrhau mwy o blanhigion blodeuol; hefyd, mae'n cynnwys gwybodaeth well am ryngweithio rhwng planhigion a pheillwyr, gan gynnwys y berthynas rhwng peillwyr gwyllt a maint, ansawdd a mathau o gynefinoedd a'u cysylltiad ag ardaloedd eraill o gynefin.
7. Cyflwynir hyn ar ran y Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt, (www.wlgf.org), elusen sy'n ceisio hyrwyddo'r broses o reoli gerddi preifat a chyhoeddus a manau gwyrdd mewn ffordd a fydd yn cefnogi ac yn gwella eu gwerth ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt. Un o'n hamcanion yw hyrwyddo sylfaen tystiolaeth wyddonol ar gyfer arferion cadwraeth ym maes garddio. Erbyn hyn, mae tystiolaeth gadarn yn dangos bod ardaloedd trefol, a gerddi a rhandiroedd yn benodol, yn gallu cynnal amrywiaeth o bryfed peillio. Rydym yn credu bod cyfleoedd eraill ar gael i **gynnwys garddwyr yn y gwaith o fonitro peillwyr**, er mwyn ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan sefydliadau fel BBCT, Gwarchod Gloynnod Byw, ac yn y blaen. Ychydig flynyddoedd yn ôl, cynhaliwyd ein harolwg peilot ein hunain o blanhigion gardd a'u cysylltiad â phryfed peillio. Arweiniodd hyn at ganlyniadau diddorol, gan ddangos yn glir bod grwpiau o bryfed gwahanol yn dewis blodau gwahanol mewn gerddi, gan ddangos eu bod yn tueddu i ddewis rhywogaethau o flodau sy'n tarddu o'r Palearctig Gorllewinol. Astudiaeth beilot fach iawn oedd hon ymysg ein haelodau, ac nid oes gennym yr adnoddau i ehangu ein harolwg ymysg y cyhoedd garddio yn gyffredinol ar hyn o bryd. Rydym yn awgrymu y byddai arolwg tebyg, sy'n sgorio ac yn graddio planhigion yr ardd yn unol â pha mor ddeniadol ydynt i bryfed, ac yn gwahaniaethu rhwng y grwpiau pryfed sy'n ymweld â hwy, yn werthfawr iawn pe gellid ei gyflwyno ymysg sampl fawr o arddwyr. Wrth reswm, byddai angen i'r arolwg gael ei ariannu'n ddigonol a'i reoli ar sail protocolau clir. Er ei bod yn bosibl y bydd angen ystyried y canlyniadau fel rhai dangosol yn hytrach na phendant, gallent ysgogi cwestiynau amrywiol sy'n haeddu gwaith ymchwil manylach. Mae'n bosibl y gallai'r diwydiant garddwriaeth wneud cyfraniad pwysig at helpu garddwyr i dyfu mathau o blanhigion addurnol sy'n denu peillwyr. Ar hyn o bryd, nid yw hyn yn digwydd yn ymarferol, oherwydd diffyg gwybodaeth a chymhelliant yn y diwydiant garddwriaethol, a natur anghyson y cyngor sydd ar gael iddo. Byddai ymchwil wyddonol ehangach a gwell yn y maes hwn yn fanteisiol i'r diwydiant, er mwyn rhoi arweiniad cliriach a mwy pendant ynglŷn ag ystyr 'plannu sy'n ystyriol o beillwyr' mewn lleoliad garddwriaethol. Cwblhawyd gan Marc Carlton ar ran y Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt. Manylion cyswllt: info@wlgf.org
8. Rwy'n dal i gredu mai'r trobwynt i gymell mwy o bobl i fanteisio ar ymyriadau er budd poblogaethau peillwyr mewn lleoliadau fferm fydd y gallu i **ddangos yn glir bod cost yr ymyriadau hynny (e.e. llain o flodau gwyllt) yn ystyriaeth bwysicach na'r fantais a geir** (e.e. ansawdd neu gynnyrch y cnwd yn gwella o ganlyniad i beillio gwell). Mae'r gallu i ddangos hyn yn

well ar gyfer amrywiaeth o gnydau gwahanol yn fwllch ymchwil penodol. Rwy'n pryderu fwyfwy bod dwy elfen wahanol i waith ym maes peillwyr, a'u bod yn cael eu cyfuno i gyd-fynd â dadleuon neu agendâu penodol. I ryw raddau, mae'r cwestiynau uchod yn adlewyrchu hyn. Os mai'r sbardun ar gyfer gweithredu yw diogelu gwerth £690 miliwn o beillio amaethyddol a'r 1 o bob 3 llond ceg o fwyd rydym yn ei fwyta - yna mae angen canolbwyntio'n glir ar y peillwyr sy'n cyflawni hyn. Mae'r dangosyddion yn awgrymu y byddem yn sôn am nifer fach o rywogaethau cyffredin o wenyng gwyllt a phryfed hofran, a gwenyn mêl. Os mai'r sbardun ar gyfer gweithredu yw gwarchod bioamrywiaeth, mae ffocws y gwaith monitro yn wahanol iawn. Bydd poblogaeth ehangach o beillwyr sy'n amlwg yn fioamrywiol sefydlog yn helpu i fod yn sylfaen i gadernid a chynaliadwyedd y dyrnaid o beillwyr cnydau – ond mewn gwirionedd mae'r rhain yn ddau fater gwahanol yn eu hanfod, a dylid eu cadw'n glir ac ar wahân. Er enghraifft - byddai ennyn diddordeb yn y mater drwy sôn am bwysigrwydd peillwyr cnydau a'r broses beillio i'r bywyd rydym yn ei fwyta, cyn dechrau mesur gloÿnnod byw a rhywogaethau prin, yn ddull gweithredu camarweiniol, a byddai'n gwastraffu'r adnoddau prin sy'n cael eu buddsoddi ym maes monitro peillwyr yn ein barn ni.

9. Canolbwyntio ar y **gwasanaeth peillio i asesu lefel a maint diffygion peillio mewn cnydau** a phlanhigion gwyllt hefyd o bosibl. Datblygu **dangosydd rhybudd cynnar o ddiffygion peillio**.
10. Yn y pen draw, mae deall bygythiadau/straenachoswyr ac **effeithiolrwydd ymyriadau** yn hollbwysig, a dylai fod yn 'flaenoriaeth' ar gyfer cynllun monitro – ond yn ystod y cam hwn mae angen canolbwyntio ar fonitro'r peillwyr er mwyn mynd i'r afael â'r sbardunau a'r atebion. Mae angen cofio hyn bob amser wrth ddatblygu'r cynllun hwn. Mae cysylltu newidiadau yn niferoedd a dosbarthiad peillwyr prin a chyffredin yn debygol o effeithio ar y broses o beillio planhigion a chnydau gwyllt. Mae yna fylchau ymchwil sydd angen eu llenwi o hyd er mwyn deall yn well y **canlyniadau ar gyfer peillio sy'n deillio o'r newid mewn poblogaethau peillwyr**. Mae gennym wybodaeth am ychydig o gnydau, ond nid wyf yn siŵr i ba raddau rydym yn deall y goblygiadau ar gyfer llawer o blanhigion gwyllt.
11. **Effeithiau cronolstraenachoswyr ar wenyng a pheillwyr eraill**. Ymatebolrwydd rhywogaethau i ddarpariaeth amodau gwell.
12. Mae'n bwysig deall y **bygythiadau / straenachoswyr** yn well. O'n safbwynt ni, y bygythiadau sy'n deillio o ddefnyddio plaladdwyr. Nid dim ond y bygythiadau amlwg megis neonicotinoidau, ond **ffwngleiddiaid yn benodol**. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol edrych ar effeithiau cyfuniadau o blaladdwyr sy'n cael eu defnyddio. Dylai paru data monitro gyda'r data diweddaraf ar ddefnydd plaladdwyr fod yn flaenoriaeth ar draws pob maes. Un peth arall sydd ar goll yn fy marn i yw monitro poblogaethau gwyfynod.
13. **Nodi bygythiadau/straenachoswyr** – byddai'n dda cael eglurhad o'r hyn rydych yn ei olygu yn y cyswllt hwn – er enghraifft agosrwydd at gnydau grawn ungnwd, colli cloddiau/ffosydd ac ati? Yn ddelfrydol, hoffem weld rhywogaethau o beillwyr cyffredin a phrin yn cael eu monitro. Hefyd, rhai mesurau procsi megis **swyddogaeth cynefin** – rhyw fesur o amrywiaeth adnoddau blodeuo, argaeledd tymhorol a gofodol o adnoddau blodeuo, argaeledd anghenion cylch bywyd eraill – adnodd nythu. Roedd yr astudiaeth a oedd yn rhan o'r Arolwg Cefn Gwlad diwethaf (nid yw'n cael ei hariannu bellach?) a oedd yn edrych ar argaeledd planhigion neithdar (<https://www.nature.com/articles/nature16532>) yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol iawn, a

byddai modd ei hymestyn/ailadrodd. O ran ein blaenoriaethau uchod – Effeithiolrwydd Ymyriadau – a yw hyn yn ystyried effaith lleihau plaladdwyr, cynyddu cysylltedd cynefinoedd, cynyddu ansawdd/amrywiaeth cynefinoedd? Mae'n debyg y bydd angen datrysiad tueddiadau ar lefel rhanbarthol ar gyfer Arall – Cyfraniad adnoddau cynefinoedd nad ydynt yn flodau (h.y. cynefin bridio/nythu mewn cloddiau, ffosydd, gwlyptiroedd ac ati.) Noder nad yw'r canlynol mewn unrhyw drefn blaenoriaeth.

- Nodi pa **nodweddion cynefinoedd/tirwedd** sy'n cyfrannu fwyaf at gynyddu bioamrywiaeth peillwyr e.e. cynefinoedd lled-naturiol, nodweddion 'parhaol' o gymharu â nodweddion 'dros dro', gwrychoedd neu ffosydd, cymunedau blynyddol o chwyn ac ati.
- Sut mae rheoli nodweddion tirwedd yn cyfateb i niferoedd peillwyr e.e. beth yw effeithiau clirio ffosydd, dwyster rheoli gwrychoedd neu ymylon, cyfundrefnau pori ar borfeydd.
- Effeithiau **gwrteithiau** a chwynladdwyr ar niferoedd ac amrywiaeth peillwyr.
- Rhagor o ymchwil gymhwysol i ddysgu mwy am fesurau amaeth-amgylchedd/gwirfoddol sydd wedi'u hargymell fel ein bod yn darparu'r argymhellion gorau posibl. Er enghraifft, rhagor o waith ymchwil i werth cymysgeddau Pail a Neithdar (yn yr un modd cymysgeddau ymylon blodau gwyllt â hadau) ar gyfer pob grŵp o beillwyr, nid dim ond nifer gyfyngedig ohonynt.
- Rhagor o ymchwil i niferoedd **neonicotinoidau** mewn cynefinoedd/nodweddion tirwedd eraill e.e. gwrychoedd, ymylon caeau, cymunedau o chwyn â, cymunedau o blanhigion sy'n tyfu ar dir diffaith, glaswelltiroedd.
- Gwerth **coetiroedd** yn y dirwedd amaethyddol, ac effeithiau rheoli coetir ar fioamrywiaeth peillwyr.
- Nodi'r **rhywogaethau o blanhigion allweddol** a faint o amrywiaeth o ran blodau sy'n ddigon i sicrhau bioamrywiaeth dda o safbwynt peillwyr (gweler Arolwg Cefn Gwlad a'r gwaith ymchwil uchod).
- **Cysylltu cynhyrchiant â niferoedd peillwyr** ar gyfer cnydau amrywiol.
- Dadansoddi tueddiadau sylfaenol gan **gysylltu data ar beillwyr â data arall** e.e. lleihau amrywiaeth peillwyr a lleihau amrywiaeth planhigion a newid mewn cyfansoddiad cymunedol. Hynny yw, cysylltu'r dirywiad mewn blodau gwyllt â phoblogaethau o beillwyr.
- A yw **cysylltedd** cynyddol rhwng **cynefinoedd** yn cyfateb i fwy o fioamrywiaeth o safbwynt peillwyr? Hefyd, sut mae'n cyfateb i gynnydd mewn cynnyrch cnydau?

14. Yn sylfaenol, mae angen i ni ddeall **tueddiadau hirdymor yn yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer peillwyr**. Er ei bod yn dda clywed am effeithiau amaeth-amgylchedd, mae angen inni wybod beth sy'n digwydd yng nghefn gwlad yn ehangach hefyd. Mewn gwirionedd, mae angen i ni integreiddio gwaith monitro peillwyr â gwaith monitro sbardunau posibl – adnoddau yn y dirwedd, plaladdwyr a chlefydau. Enghreifftiau penodol: Fel arfer, mae effeithiolrwydd cynlluniau amaeth-amgylchedd yn cael ei fesur ar raddfa fach a thros gyfnod amser cymharol fyr. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig ein bod yn dysgu a yw'r mesurau hyn yn effeithiol dros gyfnod hirach, ac os nad ydynt, pam? Gall llain glustogi blodau gwyllt hyrwyddo niferoedd gwenyn ac amrywiaeth ar raddfa cae, ond a yw'n cael effaith ar raddfa fferm? Hefyd, mae angen inni wybod a yw safleoedd nythu yn ffactor cyfyngol o ran gallu cynlluniau amaeth-amgylchedd i gyfrannu at waith cadwraeth peillwyr, ac os felly, pa ymyriadau rheoli a allai wneud iawn am hyn. Mae yna fylchau gwybodaeth o hyd yn ein dealltwriaeth o **gysylltiadau clefydau** – rhwng cacwn sydd

wedi'u mewnforio a pheillwyr brodorol, a rhwng gwenyn mêl a gwenyn brodorol. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddsbarthiad pathogenau, llwybrau trosglwyddo, effeithiau biolegol ac ecolegol, a dulliau rheoli, yn enwedig yng nghyd-destun clefydau sy'n dod i'r amlwg. **Mae gerddi a rhandiroedd** yn cael eu hyrwyddo'n aml fel cynefinoedd pwysig ar gyfer peillwyr. Er ein bod yn dechrau deall rhai o effeithiau pryfleiddiaid a chwynladdwyr ar beillwyr mewn cyd-destun amaethyddol, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am gyfraniad cymharol y cemegau a ddefnyddir mewn gerddi domestig. Mae hyn yn gofyn am ddull gweithredu rhyngddisgyblaethol er mwyn ymchwilio i lefelau defnydd, effeithiau posibl ar beillwyr, ac agweddau ac ymwybyddiaeth garddwyr. Byddai'r wybodaeth hon yn darparu sylfaen gadarn i ddatblygu polisiau a/neu reoleiddio addysg i leihau'r defnydd o gemegau mewn lleoliadau domestig.

15. "A yw'r term 'endemig' yn cael ei ddefnyddio i olygu brodorol? (Fel arfer, rwy'n meddwl y byddwn yn dehongli ystyr endemig fel 'dim ond yn digwydd mewn gwlad/rhanbarth penodol'). A yw rhywogaethau goresgynnol yn cyfeirio at rywogaethau a allai fod yn beillwyr? Neu a yw'n cyfeirio at rywogaethau goresgynnol sy'n effeithio ar beillwyr brodorol? Hefyd, rwy'n credu bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ffocws ar rywogaethau (cyffredin, prin, endemig) a'r ffocws ar blanhigion (cnydau, planhigion gwyllt). Rwy'n credu y dylai cynllun monitro allu hysbysu yn y naill achos a'r llall?"

Yn olaf, mae pwyslais y polisi ar beillwyr yn deillio'n rhannol o risgiau posibl i wasanaethau peillio. Ond mae'r holl opsiynau uchod yn canolbwyntio ar fonitro peillwyr yn hytrach na pheillio – gallai'r olaf fod yn werthfawr hefyd. Yn ogystal â'r uchod, a gan gofio bod gwaith ymchwil ar gael nad wyf yn ymwybodol ohono o reidrwydd: rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol gwella ein dealltwriaeth o'r **berthynas rhwng niferoedd/cyfoeth peillwyr, cyfraddau ymweld, a ffurfiant hadau/ffrwythau**, yn ogystal â'r graddau y mae planhigion yn wynebu diffyg peillio. Hefyd, nid wyf yn gwybod faint o waith ymchwil sydd ar gael yn ymwneud ag a yw newidiadau yng nghyfansoddiad peillwyr yn effeithio ar gymunedau planhigion, a sut mae hynny'n digwydd (yn enwedig ar gyfer rhywogaethau planhigion sydd o bwysigrwydd cadwraethol). Un cwestiwn cysylltiedig fyddai ceisio darogan y canlyniadau pe bai peillwyr yn dirywio ymhellach. Paul Woodcock ar ran JNCC"

16. Gwaith ymchwil yn ymwneud a **gwerth rhywogaethau/mathau o blanhigion** ar gyfer grwpiau gwahanol o beillwyr, wedi'u trin a heb eu trin. Hefyd, argaeledd safleoedd nythu addas.